

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Rhan 2: Adrannau 5,6,7,8

Dyletswydd i hyrwyddo llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth a dyletswyddau hollgyffredinol eraill

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid yn llwyr y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru i ddiwallu anghenion yr unigolyn a gwneud gwasanaethau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn rhoi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl dros y cymorth y mae ei angen arnynt i ddileu rhwystrau i'w llesiant. Mae'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynharach i atal anghenion rhag dod yn ddifrifol, ac mae'n hyrwyddo'r arfer o fuddsoddi mewn adnoddau yn y tymor byr i roi'r gwerth gorau i bwrs y wlad ar y cyfan.

Mae'r Ddeddf hefyd yn hyrwyddo integreiddio rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i'r graddau mwyaf posibl er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant gwell.

Mae'r cod ymarfer statudol mewn perthynas â Rhan 2 yn darparu eglurder a chyfarwyddyd ynghylch y dyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn adrannau 5, 6 a 7. Mae'r ddogfen frifio dechnegol hon yn rhoi crynodeb byr o'r dyletswyddau ar bersonau sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf, ond nid dogfen gyfreithiol mohoni.

Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218p/art2cy.pdf>

Cyhoeddwyd y cod ymarfer hwn o dan Ran 2 o'r Ddeddf ar 18 Rhagfyr 2015. Mae'n dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

Crynodeb o'r dyletswyddau

Mae **Adran 5** yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf geisio hyrwyddo llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.

Mae **Adran 6** yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf roi sylw i farn, dymuniadau, teimladau, nodweddion, diwylliant a chredoau unigolyn. Hefyd i hyrwyddo a pharchu urddas yr unigolyn, a'i gynorthwyo i gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno.

Mewn perthynas ag oedolion, mae'n rhaid i bersonau ddechrau gyda'r rhagdybiaeth mai'r oedolyn sydd yn y sefyllfa orau i farnu llesiant yr oedolyn a hyrwyddo annibyniaeth yr oedolyn pan fo'n bosibl.

Mewn perthynas â phlant, mae'n rhaid i bersonau hyrwyddo magwraeth y plentyn gan deulu'r plentyn, i'r graddau y mae gwneud hynny yn gyson â hyrwyddo llesiant y plentyn.

Mae **Adran 7** yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a Rhan 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'r cod yn cyflwyno'r gofyniad bod awdurdodau lleol yn rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.

Mae **Adran 8** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad o ganlyniadau llesiant i'w cyflawni ar gyfer pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.

Beth maen nhw'n ei wneud?

Bydd y dyletswyddau hyn yn newid y ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda phobl i'w grymuso i gyfrannu tuag at gyflawni eu llesiant eu hunain gyda'r lefel briodol o gymorth a gwasanaethau. Bydd gweithio mewn partneriaeth gyda phobl yn allweddol i sicrhau eu llesiant ac atal yr angen am ofal a chymorth.

Cydweddiad â'r Ddeddf

Bydd llesiant pobl a'r canlyniadau y maent yn dymuno'u cyrraedd yn ganolog i'r Ddeddf gyfan. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol:

- ddefnyddio'r wybodaeth a gesglir am lesiant pobl a'r rhwystrau i hyrwyddo llesiant i oleuo'r asesiad o'r boblogaeth (**adran 14**);
- ceisio hyrwyddo llesiant pobl wrth ddarparu neu drefnu gwasanaethau ataliol (**adran 15**);
- ceisio cynnwys pobl yn y broses o ddylunio a darparu gwasanaethau a ddarperir gan

fentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector (**adran 16**);

- sefydlu system sy'n rhoi i bobl yr wybodaeth, y cyngor a'r cynhorthwy y mae eu hangen arnynt i gymryd rheolaeth ar eu bywydau o ddydd i ddydd a chyflawni'r hyn sydd o bwys iddynt (**adran 17**);
- gweithio gyda phobl i adnabod yr hyn sydd o bwys iddynt wrth asesu angen unigolyn am ofal a chymorth a datblygu ei gynllun gofal a chymorth (neu gynllun cymorth ar gyfer gofalwyr) (**Rhannau 3 a 4**);
- lle y bo'n briodol, trefnu eiriolwr annibynnol i gefnogi a chynrychioli barn, dymuniadau a theimladau unigolyn. (**Rhan 10**).

Sut mae'n gweithio yn ymarferol? Dyletswydd hollgyffredinol: llesiant

Ni all asiantaethau a sefydliadau gyflawni canlyniadau llesiant, ond gallant gynorthwyo pobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Mae'n rhaid i bersonau sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf geisio hybu llesiant ar gyfer pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth, wrth gyflawni unrhyw swyddogaethau dan y Ddeddf.

Mae llesiant yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl; bydd pobl yn dymuno cyflawni'r hyn sydd o bwys iddynt hwy yn seiliedig ar eu gwerthoedd eu hunain a'r hyn sydd o bwys iddynt.

Mae'r datganiad llesiant yn disgrifio'r canlyniadau llesiant cenedlaethol ar gyfer pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Bydd y datganiad llesiant yn cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru pan fydd y Ddeddf yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Dyletswyddau hollgyffredinol: canllawiau pellach

Mae'r dyletswyddau hollgyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf "roi sylw" a rhoi "sylw dyledus" i faterion penodol. Wrth arfer swyddogaethau dan y Ddeddf, mae'n rhaid i bersonau sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a nodir yn adrannau 6 a 7.

Mae'n rhaid i bersonau sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf benderfynu sut y gellid cydymffurfio

â'r dyletswyddau hollgyffredinol. Mae trefniadau megis hyfforddi staff a chyflwyno mesurau diogelu gweithdrefnol yn enghreifftiau o ffyrdd y gellir cydymffurfio.

Dylai personau sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf gadw cofnod cywir o'r modd y maent wedi rhoi sylw i'r materion penodol hynny wrth wneud penderfyniadau ynghylch adnabod anghenion unigolyn a darparu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny.

Lle mae awdurdod lleol yn trefnu i drydydd parti ddarparu gwasanaethau ar ei ran, mae'r dyletswyddau hollgyffredinol yn aros gyda'r awdurdod. Mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau bod yr holl wasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r dyletswyddau hollgyffredinol.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

Rhagor o wybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/?lang=cy>

Datganiad llesiant:

<http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/strategies/statement/?lang=cy>

Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol:

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/140814nofcy.pdf>

Hyb gwybodaeth a dysgu Cyngor Gofal Cymru:

<http://www.cgcywmu.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/?force=2>

Egwyddorion y Cenedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

<http://www.un.org/documents/ga/res/46/a46r091.htm>

Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/rights/uncrc/?skip=1&lang=cy>

Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl

<http://www.un.org/disabilities/convention/conventionfull.shtml>